
Ydy'r elusen yn gwmni wedi'i gorffori o dan y Deddfau Cwmnïau ac yn destun archwiliad statudol o dan y Ddeddf Cwmnïau?
Ydy
Ddim yn gymwys i gael archwiliad annibynnol: gofynion archwilio y Ddeddf Cwmnïau yn gymwys oni bai ei bod wedi'i heithrio o archwiliad ariannol fel cwmni bach.
Nac ydy
Ydy'r ddogfen lywodraethol (cwmni neu heb fod yn gwmni) yn pennu archwiliad ariannol? Neu oes angen archwiliad ariannol ar roddwr?
Ydy
Ddim yn gymwys oni bai fod y ddogfen lywodraethol yn cael ei diwygio i ganiatáu archwiliad annibynnol. Yn ddoeth i geisio cytundeb gan roddwr bod archwiliad annibynnol yn dderbyniol.
Nac ydy
Ydy'r incwm gros yn fwy na £1m neu os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000 ydy cyfanswm gwerth asedau yn fwy na £3.26m?
Ydy
Ddim yn gymwys i gael archwiliad annibynnol; rhaid cynnal archwiliad ariannol yn ôl statud.
Nac ydy
Os oes is-gwmnïau gan yr elusen, ydy cyfanswm incwm gros y grŵp yn fwy na £1m?
Ydy
Rhaid paratoi cyfrifon grŵp ac mae archwiliad ariannol yn ofynnol gan statud (os yw'r cyfanswm incwm yn is na £1m nid oes rhaid cael cyfrifon grŵp yn ôl y gyfraith).
Nac ydy
Ydy'r incwm gros am y flwyddyn yn llai na £25,000?
Ydy
Nid oes angen archwiliad annibynnol, ond gall ymddiriedolwyr ei ddewis os dymunant.
Nac ydy
Archwiliad annibynnol yw'r gofyniad lleiaf, ond gall ymddiriedolwyr ddewis cael archwiliad ariannol.